**Manylion Pellach**
**Adnoddau Dynol**

**Further Particulars**
**Human Resources**

**Cydlynydd Marchnata trwy gyfrwng y Gymraeg**
**(Cyfnod penodol hyd at 30 Medi 2018)**
**Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr**
Gradd 5: £22,214 - £24,983 y flwyddyn pro rata

*I hyrwyddo gweithlu hyblyg, bydd y Brifysgol yn ystyried ceisiadau gan unigolion sy'n ceisio am swydd gyda threfniadau gweithio llawn amser, rhan amser, rhannu swydd, neu yn ystod y tymor yn unig.*

Mae'r Brifysgol yn awyddus i benodi Cydlynydd Marchnata i gyfrannu at ei gwaith marchnata trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y sawl a benodir yn gallu cyfrannu at waith marchnata'r Brifysgol yn gyffredinol, ond gyda phwyslais arbennig ar hyrwyddo cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â rhagoriaeth y profiad Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad ym mhob un, neu'r rhan fwyaf, o'r meysydd canlynol – marchnata traddodiadol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, y cyfryngau digidol a chymdeithasol, cyflawni ymgyrchoedd ar draws yr holl gyfryngau, marchnata cynnwys a marchnata trwy brofiadau.

Am drafodaeth anffurfiol mae croeso i chi gysylltu ag Angharad Evans, Rheolwr Marchnata dros dro (e-bost: anj27@aber.ac.uk).

**Cyf: MSR.17.1524**

Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio, ewch i http://jobs.aber.ac.uk.

Sefydliad Dwyieithog sy'n gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal.

FEL ARFER FE BENODIR I SWYDDI O FEWN 4-8 WYTHNOS WEDI'R DYDDIAD CAU.

**Welsh Medium Marketing Co-ordinator**
**(Fixed term until 30 September 2018)**
**Marketing and Student Recruitment**
Grade 5: £22,214 - £24,983 per annum pro rata

*To promote a flexible workforce, the University will consider applications from individuals seeking full time, part time, job share, or term time only working arrangements.*

The University is seeking to appoint a Marketing Coordinator to contribute to its marketing of Welsh-medium provision. The person appointed will be able to contribute to the University's marketing work in general, but with particular emphasis on promoting opportunities to study through the medium of Welsh together with the excellence of the all-round Welsh language experience at Aberystwyth University. The person appointed will be experienced in all, or most, of the following areas – Welsh-medium and bilingual traditional marketing, digital and social media, delivery of campaigns across all media, content marketing and experiential marketing.

For an informal discussion please contact Angharad Evans, Acting Marketing Manager (e-mail: anj27@aber.ac.uk).

**Ref: MSR.17.1524**

For information and to apply, please go to http://jobs.aber.ac.uk.

We are a Bilingual Institution which operates a Welsh Language scheme and is committed to Equal Opportunities.

APPOINTMENTS ARE NORMALLY MADE WITHIN 4-8 WEEKS OF THE CLOSING DATE.

**Manylion Pellach** (Saesneg ar gael isod)

**Y mae'r disgrifiad swydd hwn yn amodol ar ei adolygu a'i ddiwygio yng ngoleuni anghenion cyfnewidiol y Brifysgol, i ddarparu cyfleoedd datblygu priodol ac/neu i ychwanegu dyletswyddau ychwanegol eraill.**

## Y Swydd

Mae'r Brifysgol yn awyddus i benodi Cydlynydd Marchnata i gyfrannu at ei gwaith marchnata trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y sawl a benodir yn cyfrannu at waith marchnata'r Brifysgol yn gyffredinol, ond gyda phwyslais arbennig ar hyrwyddo cyfleoedd i astudio a byw trwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth.

## Prif Gyfrifoldebau a Dyletswyddau

- Dadansoddi gwybodaeth reolaethol fanwl a'i defnyddio i ddatblygu strategaeth a chynlluniau ymgyrchu er mwyn denu myfyrwyr o Gymru, di-Gymraeg a chyfrwng Cymraeg.
- Arwain wrth ddatblygu ymgyrchoedd newydd i gysylltu â'r gynulleidfa darged er mwyn cynyddu ceisiadau a chyfradd trosi myfyrwyr.
- Cyfrannu at drafodaethau strategol ynglŷn â denu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg mewn fforymau penodol - e.e. Grŵp Darpariaeth Cymraeg, Cangen Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Grŵp Cyfarwyddwyr y Gymraeg.
- Cyfrannu ar lefel uchel i adroddiadau pwyllgorau priodol y Brifysgol yn ogystal ag Uwch Reolwyr y Brifysgol i gynorthwyo datblygiadau strategol.
- Gweithio gyda'r tîm Cyswllt ag Ysgolion i greu strategaeth rheoli perthynas ar gyfer ysgolion yng Nghymru.
- Cynrychioli'r Brifysgol yn ffeiriau UCAS yng Nghymru i ddod i gyswllt â darpar fyfyrwyr a'u denu yma, a hyrwyddo'r Brifysgol yn y dull mwyaf manteisiol.
- Penodi, datblygu a rheoli tîm o lysgenhadon cyfrwng Cymraeg at ddibenion marchnata cyfrwng Cymraeg. Goruchwylio eu gwaith a mentora unigolion i ddarparu gwaith o safon uchel.
- Arwain wrth roi ymgyrchoedd ar waith trwy gydlynu timau gwahanol ar draws y Brifysgol.
- Cydlynu'r gwaith o gynhyrchu deunyddiau marchnata digidol a thraddodiadol, wedi'u hanelu at gynulleidfa cyfrwng Cymraeg, gan weithio gyda'r tîm dylunio mewnol a / neu dîm y we.
- Ysgrifennu cynnwys Cymraeg a Saesneg a fydd yn apelio i'r gynulleidfa darged.
- Arwain trefniadau'r Brifysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Drafftio adroddiadau monitro perfformiad ymgyrch a'u cyflwyno i bwyllgorau perthnasol y Brifysgol - e.e. Grŵp Darpariaeth Cymraeg, Cangen Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Grŵp Cyfarwyddwyr y Gymraeg.
- Ysgrifennu copi i ymgyrchoedd e-bost wedi'u teilwra i'r farchnad darged.
- Adolygu perfformiad effeithlonrwydd ymgyrch e-bost a defnyddio'r data i lywio ymgyrchoedd yn y dyfodol.
- Ysgrifennu ac adolygu cynnwys ar gyfer rhannau o'r wefan sy'n berthnasol i ddarpar fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg.
- Dyfeisio a gweithredu mentrau cipio data newydd ar gyfer y Brifysgol, monitro perfformiad prosesau cipio data a defnyddio'r canfyddiadau i lywio cynlluniau'r dyfodol.
- Cyfarwyddo'r gwaith o greu cynnwys fideo i apelio at y farchnad darged cyfrwng Cymraeg.
- Cynrychioli'r Brifysgol mewn digwyddiadau a gynlluniwyd i ddenu ac ymgysylltu â darpar fyfyrwyr - Dyddiau Agored, Dyddiau Ymweld, Ymweliadau Ysgol.

- Gweithredu yn unol â'r Canllawiau Brand (gweledigaeth a gwerthoedd) a chanllawiau cydymffurfio.
- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch sy’n briodol i’r swydd.
- Bod yn ymroddedig i Bolisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y Brifysgol, ynghyd â dealltwriaeth ynglŷn â sut y mae’n gweithredu o fewn cyfrifoldebau’r swydd.
- Bod yn ymroddedig i’ch datblygiad eich hun a datblygiad eich staff, drwy ddefnyddio proses ‘datblygu staff ac adolygu perfformiad’ y Brifysgol yn effeithiol.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill a ystyrir yn rhesymol.

**Manylion Person**

| **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|
| **Cymwysterau**<br>• Gradd neu gymhwyster proffesiynol cyfwerth mewn pwnc cysylltiedig.<br>• Trwydded yrru gyflawn, a bod yn abl ac yn fodlon teithio ledled Cymru, neu Brydain. | |
| **Profiad**<br>• Profiad o greu deunydd marchnata traddodiadol a digidol. | • Profiad o weithio mewn tîm marchnata.<br>• Profiad o ddadansoddi data. |
| **Gwybodaeth** | • Ymwybyddiaeth o faterion addysg cyfrwng Cymraeg a’i datblygiad mewn ysgolion, colegau ac addysg uwch. |
| **Sgiliau**<br>• Gallu gweithio’n effeithlon yn aelod o dîm.<br>• Gallu gweithio’n annibynnol i gwblhau tasgau mewn amser penodol.<br>• Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a’r Saesneg.<br>• Llygad graff am fanylion a lefel uchel o gywirdeb yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>• Gallu cynnig syniadau arloesol a chreadigol i gwrdd â gofynion cymhleth.<br>• Gallu monitro a dadansoddi perfformiadau ymgyrchoedd, ac addasu cynlluniau yn unol â hynny.<br>• Gallu cynnig syniadau newydd yn gyson er mwyn cyfrannu i waith y tîm marchnata ac i ddenu myfyrwyr. | |
| **Iaith Gymraeg**<br>• Lefel Cymraeg Llafar (siarad): C2<br>• Lefel Cymraeg Ysgrifenedig: C2 | |

**<u>Lefel Cymraeg Llafar (siarad): C2</u>**

Rwy'n gallu:

- deall adroddiadau ac erthyglau yr wyf yn dod ar eu traws yn fy ngwaith, gan gynnwys syniadau cymhleth wedi'u mynegi mewn iaith gymhleth.
- cymryd rhan yn ddiymdrech mewn trafodaeth.
- mynegi fy hunan yn rhugl a chyfleu arlliwiau ystyr yn gywir.
- addasu ac ailstrwythuro fy nghyfraniad wrth imi gwrdd ag unrhyw anhawster a wynebir, mor esmwyth fel braidd nad yw pobl eraill yn ymwybodol ohono.
- cynghori ar faterion cymhleth, anodd a chynhennus megis materion cyfreithiol neu ariannol, i'r graddau y mae fy ngwybodaeth arbenigol yn ymestyn.
- cyflwyno disgrifiadau neu ddadleuon yn dda, yn llyfn ac yn glir, yn y cywair sy'n briodol i'r cyd-destun, ac sydd â strwythur rhesymegol ac effeithiol sy'n helpu i dynnu sylw'r sawl sy'n gwrando ar y pwyntiau arwyddocaol.

**<u>Lefel Cymraeg Ysgrifenedig: C2</u>**

**<u>Rwy'n gallu:</u>**

- cymryd nodiadau llawn a chywir a pharhau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a seminarau.
- ysgrifennu testunau wedi'u strwythuro'n dda ac yn llyfn ac yn y cywair priodol.
- ysgrifennu adroddiadau neu erthyglau technegol gymhleth strwythuredig sy'n helpu i dynnu sylw'r sawl sy'n darllen, at y pwyntiau arwyddocaol.
- ysgrifennu adolygiadau o weithiau proffesiynol a/neu rai llenyddol.

**<u>Further Particulars</u> (Yn Saesneg yn Unig)**

**This job description is subject to review and amendment in the light of the changing needs of the University, to provide appropriate development opportunities and/or the addition of any other reasonable duties.**

**<u>The Post</u>**

The University is seeking to appoint a Marketing Co-ordinator to contribute to its marketing of Welsh-medium provision. The person appointed will contribute to the University's marketing work in general, with particular emphasis on promoting opportunities to study and live through the medium of Welsh in Aberystwyth.

**Main Duties & Responsibilities**

- Analyse detailed management information and use to inform strategy development and campaign plans to recruit Welsh-medium students and students from Wales.
- Lead on the development of new campaigns to engage with the target audience in order to increase applications and conversion.
- Contribute to strategic discussions on aspects of Welsh-medium recruitment in specific forums - e.g. Welsh Provision Group, Aberystwyth Branch of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Welsh Language Directors Group.
- Provide high level input into reports to the appropriate committees of the University and Senior Management to inform future strategic development.
- Work with the Schools Liaison team to create a relationship management strategy for schools within Wales.
- Represent the University at UCAS exhibitions in Wales to engage with and attract prospective students and promote the University in the best possible light.

- Recruit, develop and manage a team of Welsh-medium ambassadors for Welsh medium marketing purposes. Overseeing their work and mentor individuals to deliver high quality work.
- Lead on campaign implementation by coordinating the efforts and inputs from teams from across the university.
- Coordinate the production of digital and traditional marketing materials, aimed at a Welsh-medium audience, working with the in-house design team and/or web team.
- Copy write Welsh and English content that will appeal to the target audience.
- Lead on the arrangements of the University's presence at the National Eisteddfod.
- Draft campaign performance monitoring reports and present to relevant university committees - e.g. Welsh Provision Group, Aberystwyth Branch of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Welsh Language Directors Group.
- Copywriting for e-mail campaigns to appeal to the target market.
- Review the performance of e-mail campaign efficiency and use the data to inform future campaigns.
- Writing and review content for sections of the website that are relevant to prospective Welsh-medium students.
- Devise and implement new data capture initiatives for the University, monitor the performance of data capture processes and use the findings to inform future plans.
- Direct the process of video content creation to appeal to the welsh medium target market.
- Represent the University at events designed to attract and engage with potential students - Open Days, Visiting Days, School Visits.
- Act in accordance with the Brand Guidelines (vision and values) and compliance guidelines.
- To undertake health and safety duties and responsibilities appropriate to the post.
- To be committed to the University's Equal Opportunities and Diversity Policy, together with an understanding of how it operates within the responsibilities of the post.
- To be committed to your own development and that of your staff through the effective use of the University's staff development and performance review.
- Any other duties reasonably requested.

**Person Specification**

| **Essential** | **Desirable** |
| --- | --- |
| **Qualifications**<br>• Degree or equivalent professional qualification in a relevant subject.<br>• Valid UK driving licence or the equivalent right to drive in the UK plus willingness and ability to travel within Wales and the rest of UK. | |
| **Experience**<br>• Experience of producing traditional and digital marketing materials. | • Experience of working in a marketing team<br>• Experience of data analysis. |
| **Knowledge** | • Information on Welsh-medium education issues and developments in schools, colleges and in higher education. |
| **Skills**<br>• Ability to work effectively as a team member. | |

| | |
|---|---|
| • Ability to work independently to carry out tasks to tight deadlines.<br>• Strong interpersonal and communication skills, both verbally and in writing in Welsh and English.<br>• Eye for details and a high level of accuracy in Welsh and English.<br>• Ability to provide innovative and creative solutions to complex issues.<br>• Ability to monitor and evaluate campaign performance and adapt plans accordingly.<br>• The ability to offer new ideas regularly to contribute to the work of the marketing team and to attract students. | |
| **Welsh Language**<br>• **Oral (spoken) Welsh Level: C2**<br>• **Written Welsh Level: C2** | |

**<u>Oral (spoken) Welsh Level: C2</u>**

I can:

- understand reports and articles I come across in my work, including complex ideas expressed in complex language.
- take part effortlessly in any discussion.
- express myself fluently and convey finer shades of meaning precisely.
- If I do have a problem I can revise and restructure around the difficulty so smoothly that other people are hardly aware of it.
- advise on complex, difficult and contentious matters such as financial or legal matters, to the extent that my specialised knowledge allows me
- present descriptions or arguments well, smoothly and clearly, in the appropriate register and context, and with a logical and effective structure which helps to draw the listeners' attention to relevant points.

**<u>Written Welsh Level: C2</u>**

I can :

- take full and accurate notes and continue to take part in meetings and seminars.
- write well-structured and smoothly flowing texts in the appropriate register.
- write complex technical reports or articles which helps the recipients to notice significant points.
- write reviews of professional and/or literary works.